



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /
This document is also available in English



Templed asesu'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg

Pwrpas y templed hwn yw llywio trafodaethau ynghylch cydraddoldeb a thegwch wrth ddatblygu ac adolygu prosiectau, polisïau, cynlluniau strategol a darparu gwasanaethau.

Dylai canlyniadau'r asesiad fod yn rhan ganolog o'r broses benderfynu. Felly, dylech gychwyn asesu effaith y cynnig ar y dechrau a rhoi sylw dyledus i'r canfyddiadau trwy gydol y broses ddatblygu.

Gallwch ddiweddarau'ch asesiad yn ôl yr angen wrth ddatblygu'r cynnig.

Am fwy o arweiniad, darllenwch y canllawiau sy'n gysylltiedig â'r templed yma (ar gael ar [MonITor](#)).

Teitl yr asesiad: Newid Posib i'r Gwasanaeth Ailgylchu/Gwastraff
--

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
1	28/07/2026	Draft cyntaf
2	13/08/2026	Parhau i gasglu pob 3 wythnos gan ddefnyddio biniau llai

Y Cefndir

1. Beth sy'n cael ei asesu?

Sut y bydd newid posibl i'r gwasanaeth ailgylchu/casglu gwastraff yn effeithio ar ddeiliad tŷ. Y newidiadau sy'n cael eu hystyried yw:

- Darparu cynwysyddion ychwanegol dewisol ar ymyl y palmant i ailgylchu ailgylchu dros ben.
- Newidiadau i gyfluniad y blwch troli. Er mwyn lleihau didoli, byddai Cardbord a Phapur yn cael eu casglu gyda'i gilydd.
- Lleihau'r cyfaint wythnosol cyfartalog o wastraff 'bagiau du' sydd ar gael o 80litr i 60litr trwy newid biniau gwastraff gweddilliol (biniau du) o 240ltrs i 180ltrs. Bydd amlder casglu yn cael ei gadw ar 3 wythnos.
- Bydd angen seilwaith ychwanegol sylweddol yn safleoedd derbyn ailgylchu/gwastraff y Cyngor er mwyn prosesu ailgylchu ychwanegol.
- Adnewyddu'r fflyd casglu diesel presennol gyda cherbydau trydan i gyflwyno gwasanaeth carbon niwtral.

Y newidiadau a fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar ddeiliad y tŷ yw cael cynwysyddion ymyl ymyl y ffordd ychwanegol dewisol, newidiadau i'r cyfluniad blwch troli a newid y biniau du o finiau 240ltrs i finiau 180ltr.

2. A yw'r cynnig yma'n un newydd neu'n un sy'n bodoli eisoes?

Newydd

3. Beth yw nodau a phwrrpas y cynnig yma?

Nod y newidiadau posibl yw cynyddu cyfradd ailgylchu Ynys Môn i 70%+. Rhaid i bob Cyngor gyrraedd targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru o 70% neu wynebu cosbau ariannol.

Mae ymrwymiad clir yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028 i sefydlu cyfradd ailgylchu gwastraff o 70% ac mae Blaenoriaeth Allweddol 2 Cynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu'r Cyngor yn ymrwymo i gynyddu cyfraddau ailgylchu Ynys Môn.

Mae tystiolaeth hanesyddol wedi profi bod rhoi mwy o gyfleoedd i ddeiliaid tai ailgylchu, ynghyd â chyfyngu'r lle sydd ar gael ar gyfer gwastraff math 'bag du' wedi cynyddu cyfraddau ailgylchu yn sylweddol.

4. Pwy sy'n gyfrifol am y cynnig sy'n cael ei asesu?

Prif Swyddog Rheoli Gwastraff

5. Pwy yw'r swyddog arweiniol ar gyfer cynnal yr asesiad yma?

Uwch Swyddog Rheoli Gwastraff

6. Pwy arall sy'n cymryd rhan yn yr asesiad yma?

- Pennaeth y Gwasanaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.
- Rheolwr Strategaeth Gwasanaeth a Busnes.
- Rheolwr Polisi a'r Gymraeg.
- Mae ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos ar newid posibl i'r gwasanaeth wedi cael ei gynnal rhwng Ionawr a Mawrth 2026. Mae'r canlyniad wedi siapio'r AEA hwn.

7. Oes yna gyswllt rhwng y cynnig yma a meysydd gwaith eraill? Er enghraifft, oes yna unrhyw gynigion neu bolisiau eraill y dylech eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r effaith?

Ydi- mae'r cynnig hwn yn gyson â Chynllun y Cyngor 2023-28 a Chynllun Strategol Adnoddau ac Ailgylchu 2024-29. Mae'r cynnig hefyd yn cyd-fynd â'r Hierarchaeth Gwastraff ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a nodir yn y Strategaeth Tu Hwnt i Ailgylchu.

8. A yw'r cynnig yn berthnasol i sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector gyhoeddus mewn perthynas â'r grwpiau sy'n cael eu gwarchod gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Fel rheol, mae unrhyw gynnig sy'n cael effaith ar bobl yn debygol o fod yn berthnasol.

☒ Ydi

☐ Nac ydi

Os ydych o'r farn NAD yw'r cynnig yn berthnasol, mae'n bwysig eich bod yn gallu cyfiawnhau'r penderfyniad ac yn cofnodi'r rhesymau.

9. A yw'r cynnig yn benderfyniad strategol? Os hynny, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn berthnasol – mae mwy o fanylion am hyn ar gael yn [Atodiad 1](#).

Ydi

10. Pwy fyddai'n cael eu heffeithio gan y cynnig, a hynny'n negyddol neu'n gadarnhaol ac yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?

Preswylwyr, Staff y Cyngor, Biffa (Contractwr).

Yr Iaith Gymraeg

Er mwyn eich helpu i ateb cwestiynau 11-14, mae'r canllawiau asesu effaith corfforaethol yn rhestru cyfres o gwestiynau y dylech eu hystyried wrth edrych ar sut bydd y cynnig yn cael effaith ar y Gymraeg yn gyffredinol. Bydd y graddau y mae'r cwestiynau hyn yn berthnasol yn dibynnu ar y cynnig dan sylw. Fodd bynnag, **bydd angen cynnal asesiad mwy cynhwysfawr o'r effaith ar y Gymraeg os:**

- rydych yn edrych ar brif bolisiau, strategaethau, cynlluniau neu ganllawiau'r Cyngor; neu
- yw eich ymateb cychwynnol i'r cwestiynau uchod yn codi unrhyw bryderon neu dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn trîn y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg neu'n effeithio'n negyddol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae templed ar wahân a dogfen gyngor arferion da Comisiynydd y Gymraeg ar gael ar [MonITor](#).

11. A yw'r cynnig yma'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrîn yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Cyngor?

Ydi – bydd yr holl gyfathrebu cyhoeddus a deunyddiau sy'n ymwneud â'r cynnig yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor.

12. Oes cyfle yma i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a/neu ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dydd i ddydd?

Na

13. A fydd y maes gwaith yma'n gwneud cynnig rhagweithiol i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg i ddefnyddwyr?

Ydi – bydd yr holl gyfathrebu cyhoeddus a deunyddiau sy'n ymwneud â'r cynnig yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a pholisi iaith Gymraeg y Cyngor.

14. A fydd y cynnig hwn yn debygol o warchod a hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned?

Na

Hawliau Dynol

Mae'r 16 hawl sylfaenol wedi'u rhestru yn [Atodiad 2](#).

15. Oes yna unrhyw faterion sydd angen ystyriaeth o ran hawliau dynol? Os oes, beth yw'r materion yma? Er enghraifft, a fyddai'r cynnig yn arwain at fethu â diogelu'r hawl i breifatrwydd?

Nid oes unrhyw faterion hawliau dynol wedi'u nodi.

Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Mae disgrifiadau o'r nodau llesiant wedi'u rhestru yn [Atodiad 3](#).

16. A yw'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

- ☒ Cymru lewyrchus
- ☒ Cymru gydnerth
- ☒ Cymru iachach
- ☒ Cymru sy'n fwy cyfartal
- ☒ Cymru o gymunedau cydlynus
- ☒ Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- ☒ Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Y Lluoedd Arfog

Rhaid i gynghorau roi sylw dyledus i effaith eu cynigion ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, ynghyd â'u teuluoedd. Mae rhai enghreifftiau o faterion i'w hystyried ar gael yn [Atodiad 4](#).

17. A fydd y cynnig hwn yn debygol o gael effaith ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog? Os hynny, beth yw'r effaith ac oes modd ei liniaru?

Na

Ymgysylltu, ymgynghori a thystiolaeth

Mae [rhestr wirio cyn ymgysylltu](#) ac ymgynghori ar gael ar MonITor.

18. Beth sydd wedi ei wneud hyd yn hyn o ran ymgysylltu ac ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig yma?

Cynhaliwyd ymgynghoriad am 6 wythnos yn ystod Ionawr-Chwefror 2026 i gasglu barn preswylwyr. Cwblhawyd asesiad effaith ar effaith casgliad biniau du 4 wythnos ym mis Ionawr 2026. Mae hwn yn newid i'r asesiad effaith blaenorol gan mai'r newid arfaethedig bellach yw cyfnewid y biniau du presennol am finiau llai a chadw'r amllder casglu bob 3 wythnos.

I gwrdd â gofynion safonau'r Gymraeg, pan yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch effeithiau'r cynnig ar y Gymraeg. Mae geiriad safonol ar gael yn y canllawiau sy'n gysylltiedig â'r templed hwn.

19. Ydych chi wedi, neu'n bwriadu, gofyn cwestiynau am yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'r ymgynghoriad?

- ☒ Do / Ydw
- ☐ Naddo / Nac ydw

20. Pa wybodaeth arall ydych chi wedi ei ddefnyddio fel rhan o'ch asesiad? Rhestrwch unrhyw adroddiadau, gwefannau ayyb a ddefnyddiwyd.

Gallwch nodi eich canfyddiadau o dan y grwpiau perthnasol wrth ateb cwestiwn 22 isod.

Ymgynghori ag awdurdodau lleol eraill

21. Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yma? Os oes, sut fydd y rhain yn cael sylw?

Dim un wedi'i nodi

Yr effaith debygol a chamau lliniaru

22. Nodwch isod unrhyw effaith debygol ar y grwpiau unigol a pha gamau y gellir eu cymryd i leihau effeithiau negyddol neu atgyfnerthu effeithiau cadarnhaol.

Oed: ☐ Negyddol ☒ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Hawliau plant – Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhwngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Os yw eich cynnig yn berthnasol i blant, fe'ch cynghorir i roi sylw dyledus i'r hawliau hyn fel rhan o'ch asesiad effaith. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn y canllawiau sy'n cydfynd â'r templed yma (ar gael ar [MonITor](#) - tud 10).

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Gallai newidiadau i'r cyfluniad trolibocs gael effaith gadarnhaol ar ddeiliaid tai hŷn gan y bydd casglu'r Cardbord a'r Papur gyda'i gilydd yn y blwch uchaf yn gwneud cymryd rhan yn haws gan fod angen llai o ddioli.

Mae'r cynhwysydd ychwanegol ar ymyl y palmant ar gyfer ailgylchu gormodol yn ddewisol ac os nad yw'r deiliad tŷ yn cynhyrchu llawer o ailgylchu ychwanegol, yna ni fydd angen iddynt osod cynhwysydd ychwanegol allan i'w gasglu.

Anawsterau posibl wrth gael gafael ar wybodaeth e.e. pobl â nam ar eu golwg neu ddiffyg dealltwriaeth o wybodaeth am newidiadau gwasanaeth. Byddai'r cynllun cyfathrebu yn cael ei gwblhau a rhoddir ystyriaeth i ddeiliaid tai hŷn h.y. byddai sesiwn galw heibio yn cael ei drefnu i sicrhau bod deiliaid tai sydd â llai o wybodaeth/mynediad TG yn cael eu hysbysu am y newidiadau.

Gan fod amllder y casglu yn cael ei gadw yr un fath, mae'r effaith "ar lawr gwlad" i'r cyhoedd yn lleiaf gan na fydd unrhyw newid sylweddol i'r rownd gasglu yn cael ei wneud.

Anabledd: ☒ Negyddol ☒ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Gallai newidiadau i'r cyfluniad trolibocs gael effaith gadarnhaol ar ddeiliaid tai ag anableddau gan y bydd casglu'r Cardbord a'r Papur gyda'i gilydd yn y blwch uchaf yn gwneud cymryd rhan yn haws gan fod angen llai o ddiidoli.

Mae'r cynhwysydd ychwanegol ar ochr y ffordd ar gyfer ailgylchu gormodol yn debygol o fod yn sach wedi'i bwysoli y gall rhai ag anableddau corfforol ei chael yn anodd ei gario. Fodd bynnag, mae'r cynhwysyddion ychwanegol hyn yn ddewisol ac os nad yw'r deiliad tŷ yn cynhyrchu llawer o ailgylchu, yna ni fydd angen iddynt roi cynhwysydd ychwanegol allan i'w gasglu. Gallai cael cynhwysydd ychwanegol dewisol i'w ailgylchu hefyd fod o fudd i unrhyw un sydd â symiau mawr o wastraff meddygol wedi'i ddosbarthu mewn deunydd pacio ailgylchadwy (e.e. offer dialysis cartref). Efallai y bydd deiliaid tai ag anabledd corfforol yn gymwys i gael gwasanaeth casglu â chymorth a allai negyddu'r gofyniad i gario'r cynhwysydd ychwanegol.

Anawsterau posibl wrth gael gafael ar wybodaeth e.e. pobl â nam ar eu golwg neu ddiffyg dealltwriaeth o wybodaeth am newidiadau gwasanaeth. Byddai'r cynllun cyfathrebu yn cael ei gwblhau a rhoddir ystyriaeth i ddeiliaid tai ag anableddau h.y. byddai sesiwn galw heibio yn cael ei threfnu i sicrhau bod deiliaid tai sydd â llai o wybodaeth/mynediad TG yn cael eu hysbysu am y newidiadau a bydd taflen wybodaeth bapur yn cael ei phostio i aelwydydd ar Ynys Môn.

Gan fod amllder y casglu yn cael ei gadw yr un fath, mae'r effaith "ar lawr gwlad" i'r cyhoedd yn lleiaf gan na fydd unrhyw newid sylweddol i'r rownd gasglu yn cael ei wneud.

Rhyw: ☐ Negyddol ☐ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Ni ddylai'r gallu i gael mynediad at a defnyddio'r gwasanaethau arfaethedig newydd effeithio'n andwyol ar y nodwedd warchodedig hon.

Ailbennu rhywedd: ☐ Negyddol ☐ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Ni ddylai'r gallu i gael mynediad at a defnyddio'r gwasanaethau arfaethedig newydd effeithio'n andwyol ar y nodwedd warchodedig hon.

Beichiogrwydd a mamolaeth:

☒ Negyddol ☒ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Mae'n debygol y bydd y cynhwysydd ymyl palmant ychwanegol ar gyfer ailgylchu gormodol yn sach wedi'i bwysoli y gall rhai mamau beichiog neu newydd ei chael yn anodd ei gario. Fodd bynnag, mae'r cynwysyddion ychwanegol hyn yn ddewisol ac os nad yw'r deiliad tŷ yn cynhyrchu llawer o ailgylchu, yna ni fydd angen iddynt roi cynhwysydd ychwanegol allan i'w gasglu.

Bydd biniau llai 180l yn ysgafnach a dylent ei gwneud hi'n haws i famau beichiog a newydd symud y biniau na'r biniau mwy presennol.

Hil (yn cynnwys ethnigrwydd a chenedligrwydd):

☒ Negyddol ☐ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Mae'n debygol y bydd y cynhwysydd ymyl palmant ychwanegol ar gyfer ailgylchu gormodol yn sach wedi'i bwysoli y gall rhai mamau beichiog neu newydd ei chael yn anodd ei gario. Fodd bynnag, mae'r cynwysyddion ychwanegol hyn yn ddewisol ac os nad yw'r deiliad tŷ yn cynhyrchu llawer o ailgylchu, yna ni fydd angen iddynt roi cynhwysydd ychwanegol allan i'w gasglu.

Bydd biniau llai 180l yn ysgafnach a dylent ei gwneud hi'n haws i famau beichiog a newydd symud y biniau na'r biniau mwy presennol.

Crefydd neu gred: ☐ Negyddol ☐ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Ni ddylai'r gallu i gael mynediad at a defnyddio'r gwasanaethau arfaethedig newydd effeithio'n andwyol ar y nodwedd warchodedig hon.

Cyfeiriadedd rhywiol: ☐ Negyddol ☐ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Ni ddylai'r gallu i gael mynediad at a defnyddio'r gwasanaethau arfaethedig newydd effeithio'n andwyol ar y nodwedd warchodedig hon.

Priodas neu bartneriaeth sifil:

☐ Negyddol ☐ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Ni ddylai'r gallu i gael mynediad at a defnyddio'r gwasanaethau arfaethedig newydd effeithio'n andwyol ar y nodwedd warchodedig hon.

Y Gymraeg: ☐ Negyddol ☐ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Ni ddylai'r gallu i gael mynediad at a defnyddio'r gwasanaethau arfaethedig newydd effeithio'n andwyol ar y nodwedd warchodedig hon..

Hawliau dynol: ☐ Negyddol ☐ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Ni ddylai'r gallu i gael mynediad at a defnyddio'r gwasanaethau arfaethedig newydd effeithio'n andwyol ar y nodwedd warchodedig hon.

Unrhyw fater perthnasol arall:

☐ Negyddol ☐ Cadarnhaol ☒ Dim effaith

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau pellach y gellir eu cymryd:

Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol: Cwblhewch y rhan isod os yw'r cynnig yn fater strategol (mae mwy o fanylion am y ddyletswydd ar gael yn [Atodiad 1](#))

A yw'r cynnig yn debygol o achosi anghydraddoldebau o ran canlyniadau oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol?

☐ Ydi ☒ Nac ydi

Rhowch resymau (yn cynnwys tystiolaeth i gefnogi'r canfyddiadau) a nodwch unrhyw gamau i liniaru unrhyw effaith negyddol):

DS: Mae cysylltiadau clir rhwng camwahaniaethu ac anfantais cymdeithasol. Os daw unrhyw faterion o'r fath i'r amlwg wrth asesu cynigion sydd ddim yn rai strategol,

dylech roi ystyriaeth ddyledus iddynt a'u cofnodi uchod o dan y grwp gwarchodedig perthnasol, neu o dan 'unrhyw fater perthnasol arall'.

Casgliadau

23. Nodwch y prif effeithiau negyddol sydd wedi'u hadnabod a sut y bwriedir eu lluniaru (sef crynodeb o'r atebion perthnasol i gwestiwn 22).

Gallai tystiolaeth o effaith negyddol wneud y cynnig yn anghyfreithlon. Os ydych chi wedi adnabod effaith negyddol sylweddol, dylech ystyried os oes modd cario 'mlaen gyda'r cynnig ar yr adeg yma.

Nid oes unrhyw effaith negyddol sylweddol wedi'i nodi yn yr asesiad effaith hwn gan fod y newid ar lawr gwlad i'r cyhoedd yn fach. Bydd y newidiadau i rowndiau casglu a dyddiadau casglu yn fach ac mae'r newidiadau i'r casgliad ailgylchu wedi tynnu sylw at y bydd y newid yn gadarnhaol.

Gall mynediad at wybodaeth am newidiadau posibl i'r gwasanaeth fod yn anoddach i bobl â nam ar eu golwg a meddyliol a'r rhai nad Saesneg neu Gymraeg yw eu hiaith gyntaf (nodweddion gwarchodedig anabledd a hil). Gellir lliniaru'r effaith hon trwy Gynllun Cyfathrebu clir.

24. Disgrifiwch unrhyw gamau a gymerwyd, neu a fwriedir eu cymryd, i wneud y mwyaf o hyrwyddo:

- cydraddoldeb
- y Gymraeg,
- llesiant cenedlaethau'r dyfodol

ac, os yn berthnasol, unrhyw gamau i wella canlyniadau i'r rhai sy'n wynebu anfantais economaidd gymdeithasol (sef crynodeb o'r atebion perthnasol i gwestiwn 22).

Bydd yr holl ddeunyddiau a gwasanaethau sy'n ymwneud â'r cynnig yn cydymffurfio â deddfwriaeth a gofynion polisi perthnasol.

25. A fyddai unrhyw elfen o'r cynnig yn mynd yn groes i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? (Wedi'u rhestru yn [Atodiad 3](#))?

Na

26. A oes angen edrych ar beth gellid ei wneud yn wahanol, neu ail-ystyried y cynnig yn gyfan-gwbl?

27. Oes yna strategaeth ar gyfer delio efo unrhyw effeithiau sydd ddim yn anghyfreithlon ond nid oes modd eu hosgoi nag eu lliniaru?

Dim yn berthnasol

Canlyniad yr asesiad

Mae pedwar canlyniad posibl (mae mwy o fanylion ar gael yn ein [canllawiau](#)):

☐ **Dim newid mawr:**

Mae'r asesiad yn dangos bod y cynnig yn gadarn. Nid yw'r dystiolaeth yn dangos unrhyw botensial am wahaniaethu nac effaith niweidiol. Cymerwyd pob cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da, yn amodol ar fonitro ac adolygu parhaus.

☐ **Addasu'r cynnig:**

Mae'r asesiad yn amlygu problemau posibl neu gyfleoedd a fethwyd. Addaswyd y cynnig i oresgyn rhwystrau a/neu hyrwyddo cydraddoldeb yn well.

☒ **Parhau â'r cynnig:**

Mae'r asesiad yn amlygu'r potensial am effaith niweidiol neu gyfleoedd a fethwyd i hyrwyddo cydraddoldeb. Rydych wedi amlinellu'n glir y cyfiawnhad dros barhau â fo. Rydych wedi cynnwys cyfiawnhad yn yr asesiad ac mae'r cyfiawnhad yn unol â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol.

☐ **Atal a dileu'r cynnig:**

Mae'r cynnig yn dangos gwahaniaethu anghyfreithlon gwirioneddol neu bosibl. Bydd y cynnig yn cael ei ddileu neu ei newid.

Cymeradwyo'r cynnig

Rhaid i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol gael digon o wybodaeth am ganlyniad yr asesiad a rhaid iddynt ystyried y wybodaeth hon yn llawn drwy gydol y broses o wneud penderfyniadau.

28. A fydd y cynnig yn cael ei fabwysiadu / anfon ymlaen am gymeradwyaeth?
Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?

Cyngor Sir llawn

29. Oes yna drefniadau monitro mewn lle? Beth yw'r trefniadau hynny?

Bydd y penderfyniad yn destun craffu gan Bwyllgor Sgriwtini'r Cyngor.

Mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid i'r gwasanaeth casglu gwastraff ac ailgylchu a fydd yn effeithio ar ddeiliaid tai am tua 3 blynedd ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

Cynllun gweithredu

Rhowch fanylion yma am unrhyw weithrediadau sydd wedi'u cynllunio yn dilyn cwblhau'r asesiad. Dylid cynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effaith negyddol tebygol neu wirioneddol, ynghyd ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu wneud gwaith ymchwil pellach.

Cyf	Gweithred	Swyddog arweiniol	Amserlen

Atodiad 1 - Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Beth yw'r Ddyletswydd?

Y nod cyffredinol yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol. Wrth wneud penderfyniadau strategol fel penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, rhaid rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Pwy sydd yn debygol o brofi anfanteision economaidd-gymdeithasol?

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn 'cymunedau buddiant' a hefyd mewn 'cymunedau lle', gan arwain at fwy o anghydraddoldeb, ac mae croestoriad o'r ddau yn gallu gwaethygu hynny:

Cymunedau buddiant – grwpiau sydd â phrofiad cyffredin, ee bod yn ddigartref neu bobl sydd â'r un hunaniaeth, ee unig rieni, gofalfwyr. Hefyd pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a restrir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Cymunedau lle – pobl sy'n gysylltiedig â'i gilydd oherwydd lle maen nhw'n byw, yn gweithio, yn ymweld a fo neu'n treulio cryn dipyn o'u hamser yno.

Croestoriad – yn ei hanfod, mae croestoriad yn ymwneud â deall sut mae nodweddion fel rhyw, hil neu ddosbarth yn gallu rhyngweithio ac arwain at anfantais unigryw mewn sefyllfa benodol. Ni ellir, ac ni ddylid, deall mathau penodol o wahaniaethu ar wahân i'w gilydd. Mae mabwysiadu agwedd wirioneddol groestoriadol yn sicrhau nad yw hynny'n digwydd.

Pa bryd fydd y Ddyletswydd yn berthnasol?

Wrth wneud **penderfyniadau strategol**. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu rhai enghreifftiau o benderfyniadau strategol (nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- Cyfeiriad a bwriad strategol
- Strategaethau a ddatblygwyd mewn byrddau partneriaethau rhanbarthol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus
- Cynlluniau tymor canolig i dymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau darparu a gwella gwasanaethau)
- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Newid a datblygu gwasanaethau cyhoeddus
- Cynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau ynghylch caffael a chomisiynu
- Datblygu polisiau strategol.

Mae canllawiau mwy manwl ar y Ddyletswydd hon ar gael ar [MonITor](#).

Atodiad 2 – Hawliau dynol

Hawliau a rhyddid i bob unigolyn yw hawliau dynol, gwaeth beth yw eu cenedligrwydd nag eu dinasyddiaeth. Mae yna 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 - i gyd wedi'u cymryd o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. At bwrpas y Ddeddf, fe gyfeirir atynt fel 'Hawliau'r Confensiwn':

(Cyflwyniad yw Erthygl 1 – nid yw wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

- Erthygl 2: Yr hawl i fywyd
- Erthygl 3: Gwahardd artaith
- Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol
- Erthygl 5: Yr hawl i ryddid a diogelwch
- Erthygl 6: Yr hawl i dreial teg
- Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith
- Erthygl 8: Yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol
- Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd
- Erthygl 10: Rhyddid mynegiant
- Erthygl 11: Rhyddid cymdeithasiad ac ymgynnull
- Erthygl 12: Yr hawl i briodi
- Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu
- Erthygl 1 o Brotocol 1: Diogelu eiddo
- Erthygl 2 o Brotocol 1: Yr hawl i gael addysg
- Erthygl 3 o Brotocol 1: Yr hwl i etholiadau rhydd
- Erthygl 1 o Brotocol 13: Diddymu'r gosb eithaf

Atodiad 3 – Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r ddeddf hon yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr eu bod yn ystyried yr effaith a gaiff eu penderfyniadau ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant:

Cymru lewyrchus:

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Cymru gydnerth:

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

Cymru iachach:

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Cymru sy'n fwy cyfartal:

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

Cymru o gymunedau cydlynus:

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

Cymru â diwylliant bywiog le mae'r Gymraeg yn ffynnu:

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Atodiad 4 – Deddf Lluedd Arfog 2021

Rhaid i gynghorau roi sylw dyledus i effaith eu cynigion ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi bod yn gwasanaethu yn y lluedd arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o faterion i'w hystyried wrth ateb cwestiwn 17:

- Fyddai'r unigolyn yn cael eu hystyried yn lleol os nad oeddynt wedi bod yn y lluedd arfog?
- A yw'r unigolyn neu'r teulu wedi gorfod symud oherwydd y lluedd arfog ac felly wedi gorfod mynd i waelod rhestr aros?
- A yw'r plentyn neu blant angen cymorth ychwanegol oherwydd eu bod wedi symud ysgol yn aml neu fod eu rhiant dramor?